2.11.1.3. Cyllidir HCC gan incwm grant ac ardoll. Mae gan Weinidogion Cymru y grym i bennu ardoll dan Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010. Caiff y swyddogaethau dan y Mesur eu dirprwyo i HCC drwy gytundeb dirprwyo.

2.11.1.4. Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Mae gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr nifer o swyddogaethau pwysig i reoli risg, gan gynnwys gosod y cywair a dylanwadu ar ddiwylliant rheoli risg oddi mewn i HCC a phennu faint o risg sy'n dderbyniol mewn meysydd gweithgaredd penodol. Mae'n gwneud hyn drwy gyfrwng ei bolisi a'i ddull gweithredu cyffredinol.

2.11.1.5. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o arferion Llwrwobrwyo a Llygru ac mae wedi mabwysiadu polisi i'w hatal.

2.11.1.6. Pwyllgor Archwilio a Risg HCC

Caiff cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg ei ddiffinio i gynnwys ystyried gweithgareddau arfaethedig a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol. Dyma gyfansoddiad y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024:- G W Davies (Cadeirydd); J Davies; G R Davies; A J Evershed

2.11.1.7. Pwyllgor Taliadau HCC

Pwyllgor Taliadau Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n argymhell tâl y Prif Weithredwr.

2.11.2. Adolygu Effeithiolrwydd

2.11.2.1 Mae HCC wedi cynnal ei adolygiad ei hun o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg. Hysbyswyd Bwrdd y Cyfarwyddwyr ynghylch goblygiadau adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol.

2.11.2.2 Mae systemau'r cwmni'n cael eu hadolygu'n gyson.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhau)

Datganiad Llywodraethu (parhau)

2.11.2.3 Wrth adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol HCC mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cynnal y gweithgareddau allweddol hyn:

2.11.2.4 *Adroddiadau Ariannol*

Cafwyd dealltwriaeth o'r meysydd sy'n peri'r risgiau ariannol mwyaf ar hyn o bryd a sut mae'r rheolwyr yn ymdrin â nhw'n effeithiol.

2.11.2.5 *Datganiadau Ariannol Blynyddol*

Adolygydd y datganiadau ariannol blynyddol gan benderfynu a oeddent yn gyflawn ac yn cyd-fynd â'r wybodaeth sy'n hysbys i aelodau'r pwyllgor; aseswyd a yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu'r egwyddorion cyfrifyddu priodol; cyfarfuwyd â'r rheolwyr a'r archwilwyr allanol i adolygu'r datganiadau ariannol a chanlyniadau'r archwiliad.

2.11.2.6 *Archwilio Mewnol*

Adolygodd y Pwyllgor adroddiadau yr archwilwyr mewnol.

2.11.2.7 *Archwilio Allanol*

Adolygydd cwmmpas a dull archwilio arfaethedig yr archwilwyr a gwnaed yn siŵr nad oedd dim cyfyngiadau na therfynau wedi'u gosod ar y cwmmpas heb gyfiawnhad.

2.11.3. Pwrpas y system rheolaeth fewnol

2.11.3.1. Bwriad y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg i raddau rhesymol, yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisiâu, nodau ac amcanion. Felly, ni all ond ddarparu sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd.

2.11.3.2. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd i fod i adnabod a blaenoriaethu'r risgiau rhag cyflawni polisiâu, nodau ac amcanion HCC, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd ac effaith hynny, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

2.11.3.3. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2024, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol, ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys.

2.11.4. Y gallu i drin risg

2.11.4.1. Rhoddir arweiniad i'r broses o reoli risg drwy Fwrdd y Cyfarwyddwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

2.11.4.2. Rheolwyr gweithredol HCC yw tîm rheoli risg y cwmni, ac maent yn gyfrifol am ledaenu arferion da ar draws y sefydliad. Rhoddir hyfforddiant i'r tîm gweithredol er mwyn iddynt allu cyflawni'r gwaith hwn.

2.11.5. Y Fframwaith Risg

2.11.5.1. Mae polisi rheoli risg y cwmni'n elfen allweddol o'r system rheolaeth fewnol a'r fframwaith llywodraethu corfforaethol. Mae'n cynnwys agwedd HCC at reoli risg, ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau, y broses o reoli risg a'r trefniadau adolygu.

2.11.5.2. Pennir archwaeth HCC o ran risg drwy asesu effaith y risg ar nodau, amcanion ac adnoddau ariannol y cwmni.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhau)

Datganiad Llywodraethu (parhau)

2.11.5.3. Mae'r eitemau a ganlyn yn elfennau allweddol yn y system rheolaeth fewnlod:

2.11.5.4. *Cytundeb fframwaith*

Mae cytundeb fframwaith wedi cael ei sefydlu rhwng HCC a Llywodraeth Cymru. Mae'r cytundeb hwn yn rhoi manylion y trefniadau llywodraethu rhwng Llywodraeth Cymru, fel yr unig aelod, a HCC.

2.11.5.5. *Cofrestr Risg*

Mae gan y cwmni Gofrestr Risg sy'n nodi risgiau ac yn eu sgorio am risg ac effaith. Caiff y gofrestr ei harchwilio'n rheolaidd gan y tîm gweithredol a'i hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Ymgymerwyd ag adolygiad manwl ac ail-ddylunio fframwaith rheoli risg HCC, gan gynnwys y polisi rheoli risg, y proffil risg strategol, a'r parodrydd i gymryd risg.

Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer cyfathrebu a dealltwriaeth glir o gyfrifoldebau a gofynion ar gyfer risg, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau, methodoleg sgorio risg, nodi risg, rhaglenni hyfforddi, adolygu, adrodd a monitro.

Nodwyd naw thema risg strategol:

Rhif Risg.	Risg Strategol
SR1	Anallu i gynnal iechyd ariannol a gwneud y mwyaf o'r holl gyfleoedd ariannol
SR2	Nid yw seilwaith TG yn ddiogel, yn wydn, ac yn ddigon hyblyg i fodloni galw a heriau yn y dyfodol
SR3	Methiant i gynnal amgylchedd ac ystad ddiogel i staff, ymwelwyr, a phob rhanddeiliaid
SR4	Anallu i ymateb yn effeithiol i aflonyddwch / digwyddiad mawr
SR5	Llywodraethu, arweinyddiaeth a throsolwg aneffeithiol
SR6	Methu â recriwtio, datblygu, ymgysylltu a chadw ein staff
SR7	Methiant i gwrrdd â disgwiliadau ac anghenion rhanddeiliaid (<i>Talwyr yr Arddoll, Gweinidogion Cymru</i>)
SR8	Methiant i gynnal Brand Cig Coch Cymru (<i>Methiant yn y Gadwyn Gyflewi</i>)
SR9	Methiant i dystiolaethu'n effeithiol ac ategu rhinweddau cynaliadwyedd Diwydiant Cig Moch Cymru

(Tabl 5: Risg Strategol)


Amlinellir isod ddisgrifiad o'r prif ffactorau risg a allai effeithio ar y sefydliad. Nid yw'r holl ffactorau o fewn rheolaeth HCC. Gall ffactorau eraill ar wahân i'r rhai a restrir isod hefyd effeithio'n andwyol ar y sefydliad.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhau)

Datganiad Llywodraethu (parhau)

Risg	Disgrifiad	Archwaeth Risg	Lliniaru Allweddol
Nid yw seilwaith TG yn ddiogel, yn wydn, ac yn ddigon hyblyg i fodloni galw a heriau yn y dyfodol	Ymosodiadau seiber yn cynyddu o ran amlder a chymhlethdod	Gofalus	Mae Polisi Digwyddiad Argyfyngus yn diffinio gweithdrefnau wrth gefn ar gyfer adfer ar ôl tarfu ar wasanaethau cyfrifiadurol a/neu rwydwaith. Yswiriant Seiber yn ei le sy'n darparu yswiriant ar gyfer ymateb i doriad, costau cyfreithiol a rheoleiddiol, ymyrraeth busnes, yswiriant seiberdrosedd, adfer data.
Methiant i gynnal amgylchedd ac ystâd ddiogel ar gyfer staff, ymwelwyr, a phob rhanddeiliad	Torri dyletswydd gofal	Gofalus	Archwiliad blynyddol a gwasanaeth cyngori lechyd a Diogelwch a ddarperir gan Fentor NatWest.
Anallu i ymateb yn effeithiol i aflonyddwch / digwyddiad mawr	Cynllun clir i gynnal naratif diogel ar Gig Coch - mae cynllunio wrth gefn pendant ar gyfer digwyddiad o'r fath yn hollbwysig	Gofalus	Mae polisi a gweithdrefnau Digwyddiad Critigol sydd ar waith yn cynnwys rhestr o ddigwyddiadau craidd a sut y caiff y rhain eu gweithredu.
Llywodraethu, arweinyddiaeth a throsolwg aneffeithiol	Cynllunio olyniaeth a newidiadau i dirwedd wleidyddol	Lleiaf	Mae HCC wedi datblygu ei Weledigaeth 2025, sy'n nodi'r cyfeiriad strategol ac yn disgrifio ei nodau a'i flaenoriaethau'n glir.
Methiant i recriwtio, datblygu, ymgysylltu a chadw ein staff	Cadw staff brwdfrydig o ansawdd uchel gydag ehangder profiad ac etheg gwaith uchel; creu amgylchedd gwaith cadarnhaol	Agored a Gofalus	Hyfforddiant helaeth a chyfredol. Cyflogau cystadleuol, buddion a chymhellion allweddol eraill, gan gynnwys gweithio hyblyg a hybrid.
Methiant i gwrrd â disgywiliadau rhanddeiliaid	Disgywiliad cynyddol gan dalwyr ardoll o ran lefelau cyflawni yn erbyn cylch gwaith. Lledaenu adnoddau cyfyngedig yn fras – cylch gwaith statudol eang. Cynnal darpariaeth wrth wynebu pwysau ariannol.	Lleiaf	Strategaethau marchnata effeithiol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r Fframwaith Monitro yn adolygu perfformiad yn erbyn targedau trwy gydol y flwyddyn.
Methiant i gynnal Brand Cig Coch Cymru (<i>Methiant yn y Gadwyn Gyflenwi</i>)	Cau'r lladd-dai mwy yng Nghymru. Lleihad mewn mäs critigol wrth i ddiwydiant frwydro i ymateb i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFC).	Lleiaf	Sefydlu perthnasoedd cyfrifon allweddol gyda'r sector manwerthu a gwasanaeth bwyd lluosog.
Methiant i dystiolaethu'n effeithiol ac ategu rhinweddau cynaliadwyedd Diwydiant Cig Coch Cymru	Cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. Newidiadau patrwm tywydd cynyddol yn effeithio ar gyflenwadau a chynhyrchiad.	Agored	Bwrdd Cyngori Rhanddeiliaid wedi'i greu i roi mewnbwn ac adborth ar fentrau cynaliadwyedd.

(Tabl 6: Risgiau Strategol - Disgrifiad)



Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhau)

Datganiad Llywodraethu (parhau)

2.11.5.6. *Cynllun Parhad Busnes*

Paratowyd Cynllun i ystyried sut y gallai HCC barhau â'i weithgareddau craidd pe bai trychineb yn digwydd.

2.11.5.7. *Cynllun Busnes a Cynllun Gweithredol*

O dan drefniadau llywodraethu newydd, mae HCC wedi paratoi Cynllun Busnes 2022-2026 ar gyfer tymor y Llywodraeth. Cyflwynir Cynllun Gweithredol Blynyddol a Chyllideb i'r Bwrdd. Cymeradwywyd y Cynllun ar gyfer 2023-24 yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2023.

2.11.5.8. *Adroddiadau Ariannol*

Bydd adroddiadau ariannol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn rheolaidd.

2.11.5.9. *Adroddiadau Anariannol*

Mae HCC wedi datblygu System Monitro a Gwerthuso sy'n monitro canlyniadau ac allbynnau yn erbyn y targedau a bennwyd yn y Cynllun Gweithredol. Bydd pob adran a'r tîm gweithredol yn cynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni, fod yr adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol a bod HCC yn rhoi gwerth am arian i'r rheini sy'n talu'r ardoll.

2.12 Archwilio Mewnol

- 2.12.1. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi hysbysu Bwrdd y Cyfarwyddwyr bod gan y sefydliad fframwaith effeithiol ar gyfer llywodraethu a rheoli risg ar waith. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn credu bod gan y sefydliad reolaethau effeithiol ar waith. Dangosir y meysydd gwaith penodol a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn 2023-24 a'r diweddaraf o gymeradwyo'r datganiadau ariannol yn *Nhabl* 7 isod:

System	Math o Adolygiad	Asesiad Sicrwydd
Rheoli Rhanddeiliaid gan gynnwys Strategaethau Cyfathrebu	Sicrwydd	Sylweddol
Swyddogaeth TG	Sicrwydd	Rhesymol
Gofynion Statudol a Rheoleiddiol	Sicrwydd	Cyfyngedig

(Tabl 7: Adolygiadau Archwilio Mewnol – Meysydd Gwaith yr Ymgymerydd â hwy)

- 2.12.2. Dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt y gall y meysydd y mae'r asesiadau sicrwydd wedi'u darparu arnynt eu darparu yn erbyn camddatganiad neu golled a chaiff eu heffeithiolrwydd ei leihau os na fydd yr argymhellion archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn wedi'u gweithredu'n llawn. Gwnaethpwyd y nifer a ganlyn o argymhellion ar waith archwilio a gynhaliwyd yn 2023-24 gyda'r nifer mewn cromfachau yn ymwneud â 2022-23:

Uchel	Canolig	Isel
1 (1)	4 (4)	7 (2)

(Tabl 8: Argymhellion Archwilio Mewnol)

- 2.12.3. Mae barn yr archwiliad yn cadarnhau bod gan Hybu Cig Cymru fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau sy'n rhoi **sicrwydd rhesymol** ynghylch cyflawni amcanion yn effeithiol ac effeithlon, ac eithrio'r canfyddiad archwilio isod sydd wedi'i gategoreiddio fel risg uwch: -

Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhau)

Datganiad Llywodraethu (parhau)

2.12.3.1 Dylid datblygu calendr cydymffurfio diffiniol sy'n amlinellu terfynau amser allweddol ar gyfer yr holl ddeddfwriaethau a rheoliadau sy'n berthnasol i'r sefydliad, gofynion adrodd, cyfrifoldebau, a dyddiadau pwysig eraill i roi sicrwydd i'r Bwrdd y cydymffurfir â'r rhain.

2.12.4. Nid oedd unrhyw feysydd a adolygwyd gan archwilio mewnol lle yr aseswyd nad oedd effeithiolrwydd cyffredinol y trefniadau rheolaeth fewnol yn rhoi 'dim sicrwydd'.

2.12.5. Yn 2022-23, methodd y Pennaeth Archwilio Mewnol â chael sicrwydd digonol ar draws pob un o'r tair agwedd ar y farn: llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, ac felly ni allai roi barn. Cododd y cyfyngiad hwn ar gwmpas oherwydd mai dim ond un adolygiad Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, ac un adolygiad ymgynghorol wedi'i gwblhau, yn seiliedig ar nifer y diwrnodau archwilio yr oedd HCC eu hangen.

2.13 Absenoldeb Salwch

2.13.1. Yn ystod y flwyddyn, roedd cyfradd absenoldeb salwch HCC yn 4.90% (2023 0.87%). Absenoldeb salwch hirdymor (cyfnodau o fwy na 4 wythnos) yn cyfrif am 3.14% (2023 dim).

2.14 Datganiad ynghylch Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

2.14.1. Mae'r Cyfarwyddwyr a oedd yn eu swyddi ar y dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo wedi cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

2.14.2. Mae pob un o'r Cyfarwyddwyr wedi cadarnhau eu bod wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd fel Cyfarwyddwyr er mwyn gwneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn gwneud yn siŵr ei bod wedi cael ei rhoi i'r Archwilydd.

2.15 Datganiad o Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr

2.15.1. Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad y Cyfarwyddwyr, yr Adroddiad Taliadau a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

2.15.2. Mae'r gyfraith cwmnïau yn mynnu bod y Cyfarwyddwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno mae'r Cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y cwmni'n unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ("IFRS").

2.15.3. Mae'r datganiadau ariannol yn ofynnol o dan y gyfraith a'r IFRS er mwyn cyflwyno'n deg berfformiad a sefyllfa ariannol y cwmni. Mae'r cyfeiriadau yn Neddf Cwmnïau 2006 at ddatganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg yn gyfeiriadau at ddatganiadau ariannol o'r fath sy'n rhoi cyflwyniad teg.

2.15.4. O dan y gyfraith cwmnïau, rhaid i Gyfarwyddwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o warged neu ddiffyg y cwmni ar gyfer y cyfnod hwnnw.

2.15.5. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

2.15.5.1. dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson;

2.15.5.2. gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;

2.15.5.3. nodi a ydynt wedi cael eu paratoi yn unol â'r IFRS, fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE;

2.15.5.4. Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai nad yw'n briodol tybio y bydd y cwmni'n parhau i fasnachu.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhau)

Datganiad o Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr (parhad)

- 2.15.6. Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodiadau'r cwmni a datgelu sefyllfa ariannol y cwmni yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol ac Adroddiad Taliadau'r Cyfarwyddwyr yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni, ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw anghysondeb arall.
- 2.15.7. Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r wybodaeth ariannol a'r wybodaeth gorfforaethol sydd ar wefan HCC, ac am gywirdeb y wybodaeth honno. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n gysylltiedig â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Trwy Orchymyn y Bwrdd.



C Smith
Cadeirydd
5 Rhagfyr 2024

3. Adroddiad Tâl

3.1 Pwyllgor Tâl

3.1.1. Mae Pwyllgor Tâl Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn argymhell tâl y Prif Weithredwr. Roedd cyfansoddiad y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 fel a ganlyn:- J T Davies (Cadeirydd), C Smith, ac A J Evershed.

3.2 Datganiad o Bolisi Tâl

3.2.1. Mae holl Gyfarwyddwyr y cwmni yn anweithredol ac, o ystyried bod y cwmni'n gyfyngedig drwy warant, nid oes ganddynt unrhyw fuddiant cyfranddaliadau yn y cwmni.

3.2.2. Penodwyd C Smith yn Gadeirydd o 1 Ebrill 2021 am gyfnod o 3 blynedd. Cafodd ei hailbenodi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig o 1 Ebrill 2024 am gyfnod pellach o dair blynedd. Mae ei thâl wedi'i osod ar £350 y diwrnod am hyd ei thymor yn y swydd.

3.2.3. O blith y Cyfarwyddwyr a oedd yn eu swyddi ar ddyddiad yr adroddiad hwn, penodwyd 4 Cyfarwyddwr o 1 Ebrill 2023 am gyfnod o 3 blynedd, ac ailbenodwyd 1 Cyfarwyddwr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig o 1 Ebrill 2023 am dair blwyddyn arall, ac ailbenodwyd 2 Gyfarwyddwr o 1 Ebrill 2024 am gyfnod o 2 flynedd.

3.2.4. Pennwyd tâl y Cyfarwyddwyr anweithredol ar £300 y diwrnod ynghyd â threuliau.

3.3 Cofnodion Presenoldeb

3.3.1. Cyfarfu'r Bwrdd 6 gwaith yn ystod y cyfnod Ebrill 2023 i Fawrth 2024. Mae nifer y cyfarfodydd Bwrdd a fynychwyd gan y Cyfarwyddwyr fel a ganlyn:

	2024	2023
CM Smith	6	6
M Chapman	-	4
DDH Davies	-	2
GR Davies	6	6
GW Davies	6	5
JT Davies	5	6
HH Evans	6	-
AJP Evershed	6	6
MW Humphreys	5	-
RLJ Madeley-Davies	-	1
DP Morgan	5	6
RE Roberts	6	6
C E Sanger-Davies	5	-
V Spencer-Francis	5	-
C Williams	-	5

(Tabl 9: Cofnod Presenoldeb Aelod Bwrdd)

3.3.2. Yn ogystal â'r uchod, mae Cyfarwyddwyr yn mynychu cyfarfodydd Is-bwyllgorau'r Bwrdd yn ogystal â digwyddiadau diwydiant yn ystod y flwyddyn.

Adroddiad Tâl (parhad)

3.3.3. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg 4 gwaith yn ystod y cyfnod Ebrill 2023 i Fawrth 2024. Mae nifer y cyfarfodydd a fynychwyd gan aelodau'r pwyllgor fel a ganlyn:

	2024	2023
GR Davies	4	4
GW Davies	4	3
JT Davies	4	4
AJP Evershed	4	5

(Tabl 10: Cofnod Presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg)

3.3.4. Cyfarfu'r Pwyllgor Tâl 4 gwaith yn ystod y cyfnod Ebrill 2023 i Fawrth 2024. Mae nifer y cyfarfodydd a fynychwyd gan aelodau'r pwyllgor fel a ganlyn:

	2024	2023
JT Davies	4	3
AJP Evershed	4	2
C Smith	4	3
R Madeley-Davies	-	1

(Tabl 11: Cofnod Presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Tâl)

3.4 Tâl Cyfarwyddwyr (Archwiliadwy)

3.4.1. Mae taliadau'r Cyfarwyddwyr a wasanaethodd drwy gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 fel a ganlyn:

	Cydnabyddiaeth		Treuliau	
	2024 £	2023 £	2024 £	2023 £
CM Smith	27,213	20,125	2,806	2,491
M Chapman	-	3,150	-	382
DDH Davies	-	1,200	-	-
GR Davies	4,650	4,050	560	624
GW Davies	3,750	3,000	439	264
JT Davies	3,300	5,250	280	463
H Evans	20,025	-	617	-
AJP Evershed	5,325	4,350	125	210
MW Humphreys	3,450	-	200	-
RLJ Madeley-Davies	-	1,050	-	117
DP Morgan	3,750	4,050	230	249
RE Roberts	4,800	3,900	427	398
C E Sanger-Davies	3,300	-	519	-
V Spencer-Francis	3,600	-	401	-
C Williams	-	3,750	-	192

(Tabl 12: Enillion Cyfarwyddwyr)

Adroddiad Tâl (parhad)

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Tâl yn archwiliadwy

- 3.4.2. Mae tâl aelodau'r Bwrdd yn ymwneud â phresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd, is-bwyllgorau'r Bwrdd a digwyddiadau diwydiant.
- 3.4.3. Yn ystod y flwyddyn ariannol, cafwyd costau eithriadol mewn perthynas â ffioedd a threuliau cyfarwyddwyr oherwydd materion mewnol sensitif a chymhleth parhaus, ac anghenion parhad busnes parhaus. Roedd y materion hyn yn gofyn am oruchwyliaeth lywodraethu ychwanegol, cyngor cyfreithiol, a chyfraniadau bwrdd estynedig y tu hwnt i gwmpas arferol gweithrediadau. O ganlyniad, cynyddodd cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr a threuliau cysylltiedig o gymharu â chyfnodau blaenorol. Mae'r cwmni'n parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau tryloywder a chydymffurfiaeth â'r holl ofnyion llywodraethu, ac ystyrir bod y costau eithriadol hyn yn angenrheidiol i fynd i'r afael â'r materion parhaus yn effeithiol.
- 3.4.4. Nid oedd yr un o'r Cyfarwyddwyr yn derbyn unrhyw fuddion mewn nwyddau nac yn gymwys i fod yn aelod o gynllun pensiwn y cwmni. Roedd treuliau'n gysylltiedig â'u dyletswyddau fel Cyfarwyddwyr ac ad-dalwyd unrhyw filltiroedd ar fusnes y cwmni ar gyfraddau cymeradwy Cyllid a Thollau EM.
- 3.4.5. Yn ogystal â'r Cyfarwyddwyr, roedd enillion y Swyddog Cyfrifyddu fel a ganlyn:

	2024 £	2023 £
Cydnabyddiaeth	125,001 – 130,000	125,001 – 130,000
Buddion mewn Nwyddau	5,419	3,660
Cyfraniadau Pensiwn	60,000	-

(Tabl 13: Enillion Swyddog Cyfrifo)

- 3.4.6. Roedd y Prif Weithredwr yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Cig a Da Byw a ddaeth i ben i groniad yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2022. Am y cyfnod 01/04/23 i 31/03/2024, roedd cytundeb setlo dyddiedig Mawrth 2022 yn darparu ar gyfer taliad o £60,000 i'w wneud (cost gyfatebol prynu blwyddyn bellach o wasanaeth ychwanegol yng nghynllun pensiwn y Comisiwn Cig a Da Byw) yn amodol ar yr holl ddiwydiadau gofynnol ar gyfer treth a chenedlaethol cyfraniadau yswiriant. Mae'r gydnabyddiaeth a nodir uchod ar gyfer 2023 yn cynnwys taliadau yn lle cyfraniadau pensiwn.
- 3.4.7. Yn dilyn newidiadau i derfynau cyfraniadau cynllun pensiwn a gyhoeddwyd yng nghyhoeddiad cyllideb Llywodraeth 2023, mae'r swm hwn wedi'i dalu fel cyfraniad cyflogwr i gynllun pensiwn Grŵp HCC.
- 3.4.8. Penodwyd Prif Swyddog Gweithredol / Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro gan y Bwrdd ar 11 Ionawr 2024, yn dilyn cyfnod estynedig o absenoldeb y Prif Swyddog Gweithredol, ac ymddeoliad y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol, a oedd wedi cymryd rôl y Prif Swyddog Gweithredol dros dro / Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro rhwng 23 Mehefin 2023 a 31 Ionawr 2024.
- 3.4.9. Roedd enillion y Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro fel a ganlyn:

	2024 £	2023 £
Cydnabyddiaeth	90,001 – 95,000	-
Buddion mewn Nwyddau	5,022	-
Cyfraniadau Pensiwn	4,628	-

(Tabl 14: Cyflogau Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro: Gorffennaf 2023 – Ionawr 2024)

- 3.4.10. Ymrwymadau oddi ar y Gyflogres gan aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024:

Adroddiad Tâl (parhad)

	Nifer
Nifer y penodiadau oddi ar y gyflogres gan aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol	1
Cyfanswm nifer unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres sydd wedi'u hystyried yn "aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol.	1

(Tabl 15: Uwch Swyddogion oddi ar y Gyflogres sydd â Chyfrifoldeb Ariannol Arwyddocaol)

3.4.11. Roedd cyfanswm enillion blynyddol y Prif Swyddog Gweithredol / Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2024 fel a ganlyn:

	2024 £	2023 £
Ffioedd	31,507	-
Treuliau	1,091	-
Cyfanswm y Cyflogau Blynyddol	32,598	-

(Tabl 16: Taliadau Swyddog Cyfrifyddu)

3.4.12. Yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol, cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredol eu hymddiswyddiad ar ôl cyfnod o absenoldeb. Yn dilyn hynny, daeth proses ddisgyblu i ben, a arweiniodd at y Bwrdd yn penderfynu y byddai'r unigolyn wedi cael ei ddiswyddo pe na bai wedi ymddiswyddo. Mae'r Bwrdd wedi cymryd camau priodol i sicrhau parhad arweinyddiaeth ac wedi cychwyn proses i nodi a phenodi Prif Weithredwr newydd. Yn y cyfamser, bydd cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Gweithredol yn parhau i gael eu cyflawni gan y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro i sicrhau gweithrediadau llyfn a chadw at nodau strategol y sefydliad.

3.5 Datgeliadau Cyflog Teg

	Cymhareb i weithwyr cyflogedig uchaf 2024	Cydnabyddiaeth 2024 £	Cymhareb i weithwyr cyflogedig uchaf 2023	Cydnabyddiaeth 2023 £
Cymhareb Cyflog 25ain canradd	3.61	32,742	3.82	31,002
Cymhareb Cyflog 50fed canradd	2.86	41,390	2.97	39,798
Cymhareb Cyflog 75 canradd	2.49	47,439	2.59	45,615
Ystod Tâl Staff		23,237 – 86,496		20,597 – 80,529

(Tabl 17: Datgeliadau Cyflog Teg)

- 3.5.1. Arhosodd tâl y gweithiwr sy'n cael y tâl uchaf yn sefydlog, fel y pennwyd gan y Pwyllgor Tâl.
- 3.5.2. Gostyngodd ffigwr y gymhareb tâl canraddol o 25% oherwydd cynnydd canrannol uwch yng nghyflogau staff ar y lefel hon.
- 3.5.3. Gostyngodd ffigwr y gymhareb tâl canraddol o 75% oherwydd cyflogau uwch i staff yn y canradd uchaf.
- 3.5.4. Roedd y newid canrannol ar gyfartaledd yng nghyflogau staff yn dod i 4.0%.



C Smith
Cadeirydd
5 Rhagfyr 2024



HERTHER ANSTEY-MYERS
Swyddog Cyfrifo
5 Rhagfyr 2024

4. Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Hybu Cig Cymru

Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Hybu Cig Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 sy'n cynnwys Datganiad o Wariant Cynhwysfawr, y Fantolen, Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiâu cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifeg rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion y cwmni ar 31 Mawrth 2024 ac o'i ddiffyg am y flwyddyn yna i ben;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifeg rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y cwmni yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

Casgliadau'n ymwneud a busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol cyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â phryder yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall mae'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd am y ffaith honno.

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol I Aelodau Hybu Cig Cymru (parhad)

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn fy marn i, mae'r rhan o Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr sydd i'w harchwilio wedi'i baratoi'n briodol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad blynyddol a chyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol; a
- Mae'r adroddiadau blynyddol a'r cyfarwyddwyr wedi'u paratoi yn unol â gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad blynyddol nac adroddiad y cyfarwyddwyr.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd i chi, os, yn fy marn i:

- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- Nid yw cofnodion cyfrifeg digonol wedi'u cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy nhîm;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni wneir datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth ariannol cyfarwyddwyr a bennir gan y gyfraith; neu
- Nid oedd gan y cyfarwyddwyr hawl i fanteisio ar eithriad y cwmnïau bach wrth baratoi adroddiad cyfarwyddwyr llawn a manteisio ar eithrio'r cwmnïau bach o'r gofyniad i baratoi adroddiad strategol.

Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- Mae rheolaethau mewnol fel y mae'r cyfarwyddwyr yn penderfynu arnynt yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- asesu gallu'r cwmni i barhau fel mater o drefn, datgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â phryder parhaus a defnyddio sail cyfrifyddu sy'n mynd i'r afael â hwy oni bai bod y cyfarwyddwyr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y cwmni yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol I Aelodau Hybu Cig Cymru (parhad)

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn ddeunydd os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Ymchwilio i reolwyr, pennaeth archwilio mewnol y cwmni a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Hybu Cig Cymru sy'n ymwneud â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu honedig; a
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refereniw, cydnabod gwariant a phostio cyfnodolion anarferol;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Hybu Cig Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Hybu Cig Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Hybu Cig Cymru;
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datganiadau ariannol a phroffion i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a posibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r cyfarwyddwyr; a
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthdroi rheolaeth rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau a nodwyd yn berthnasol a risgiau posibl i dwyll i bob aelod o'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Hybu Cig Cymru, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol I Aelodau Hybu Cig Cymru (parhad)

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol (parhad)

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

Cyfrifoldebau archwilydd eraill

Rwy'n cael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwysu at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Ni does gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad

I Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw gwefan Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

5. Datganiad o Wariant Cynhwysfawr

	Nodiadau	Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £	Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £
Refeniw	5	5,464,649	7,411,419
Gwariant			
Costau Gweithredu	7	5,969,923	7,530,286
Diffyg Gweithredu		(505,274)	(118,867)
Incwm Cyllid		11,509	1,573
Costau Cyllid	8	(18,598)	(32,494)
Gormodedd o Wariant dros Incwm ar Weithgareddau Cyffredin Cyn Treth		(512,363)	(149,788)
Trethiant	11	(2,176)	(299)
Diffyg cyn Ailbriso Gwrthdroi Colled Blaenorol		(514,539)	(150,087)
Ailbriso Gwrthdroi Colled Blaenorol		76,668	-
Diffyg a Chyfanswm Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn i'w Briodoli i Aelod o'r Cwmni		(437,871)	(150,087)

(Tabl 18: Datganiad o Wariant Cynhwysfawr)

6. Mantolen

	Nodiadau	2024 £	2023 £
Asedau Anghyfredol			
Eiddo, Offer a Chyfarpar	12	658,267	621,990
Hawliau Defnyddio Asedau	13	142,399	165,138
		800,666	787,128
Asedau Cyfredol			
Masnach a Derbyniadau Eraill	14	740,328	2,022,003
Arian Parod a Chyferwerth ag Arian Parod		618,231	291,723
		1,358,559	2,313,726
Rhwymedigaethau Cyfredol			
Masnach a Symiau Taladwy Eraill	15	708,676	1,203,628
Rhwymedigaethau Prydles Hawl Defnydd	16	28,756	29,489
Rhwymedigaethau Treth Presennol	11	2,176	300
		739,608	1,233,417
Rhwymedigaethau Anghyfredol			
Rhwymedigaethau Prydles Hawl Defnydd	16	166,649	176,598
Cyfanswm y Rhwymedigaethau		906,257	1,410,015
Cyfanswm yr Asedau Net		1,252,968	1,690,839
Cronfeydd Wrth Gefn			
Incwm a Gedwir	18	1,252,968	1,690,839
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn		1,252,968	1,690,839

(Tabl 19: Mantolen)

- 6.1 Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, roedd gan y cwmni hawl i gael ei eithrio rhag gofynion Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006 o dan adran 482 o'r Ddeddf hon (*cwmnïau diehw sy'n destun archwiliad sector cyhoeddus*).
- 6.2 Yn hytrach, mae'n destun archwiliad sector cyhoeddus ac yn cael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 6.3 Cymeradwywyd ac awdurdodwyd y datganiadau ariannol, sy'n cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a nodiadau cysylltiedig (1 i 25), i'w cyhoeddi gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 5 Rhagfyr 2024 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan :



C Smith
Cadeirydd
5 Rhagfyr 2024



HEATHER ANSTEY-MYERS
Swyddog Cyfrifo
5 Rhagfyr 2024

7. Datganiad Llif Arian

	2024 £	2023 Ailddatgan £
Llif Arian o Weithgareddau Gweithredu		
Diffyg Gweithredu	(505,274)	(118,867)
Dibrisiant a Cholled wrth Waredu Asedau	43,102	57,866
Dibrisiant ar Asedau Hawl il Ddefnyddio	41,031	47,947
Taliadau Prydles Weithredol	3,906	3,957
Symudiad mewn Cyfalaf Gweithio:		
Gostyngiad/(Cynnydd) mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill	1,281,676	617,048
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn masnach a symiau taladwy eraill	(494,953)	(38,946)
Arian a Wariwyd ar Weithgareddau	369,488	569,005
Trethi a dalwyd	(299)	(10)
Arian Net a Wariwyd ar Weithgareddau Gweithredu	369,189	568,995
Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi		
Prynu Offer a Chyfarpar	(2,712)	(11,337)
Prynu Asedau Anniriaethol	-	(10,145)
Elw ar Waredu Asedau	-	-
Arian Net a ddefnyddir mewn Gweithgareddau Buddsoddi	(2,712)	(21,482)
Llif Arian o Weithgareddau Ariannu		
Llog a Dderbyniwyd	11,509	1,573
Asedau Hawl i Ddefnydd Taliadau Prydles: Cyfalaf	(28,974)	(29,202)
Asedau Hawl i Ddefnydd Taliadau Prydles: Llog	(18,598)	(19,780)
Taliadau Prydles Gweithredu	(3,906)	(3,957)
Llog Gordrafft Banc	-	(12,714)
Arian Parod Net a ddefnyddir mewn Gweithgareddau Ariannu	(39,969)	(64,080)
Cynnydd/(Gostyngiad) Net mewn Arian Parod a Chyferwerth ag Arian Parod	326,508	483,433
Arian Parod a Chyferwerth ag Arian Parod ar Ddechrau'r Flwyddyn	291,723	(191,710)
Arian Parod a Chyferwerth ag Arian Parod ar Ddiwedd y Flwyddyn	618,231	291,723
Bod yn Arian Parod a ddelir mewn Cyfrifon Banc	618,231	291,723
Gordrafft Banc	-	-
	618,231	291,723

(Tabl 20: Datganiad Llif Arian)

7.1 Mae'r ffigyrau cymharol ar gyfer symudiadau cyfalaf gweithio wedi'u hailddatgan i gyfrif am addasiad a wnaed rhwng symiau derbyniadwy a symiau taladwy (£91,247) nad ydynt wedi'u diweddarau uyn y Datganiad Llif Arian.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

1. Gwybodaeth Gyffredinol

1.1 Mae Hybu Cig Cymru (*HCC*) yn gwmni atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i gorffori ac sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig. Mae'r cwmni'n gyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo gyfalaf cyfrannau. Rhif cofrestredig y cwmni yw 4635113 a'i swyddfa gofrestredig yw Tŷ Rheidol, Parc Myrddin, Aberystwyth, SY23 3FF.

1.2 Gweinidogion Cymru oedd unig aelod y cwmni drwy gydol y flwyddyn.

2. Datganiad Cydymffurfio

2.1 Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAAR) ac yn unol â darpariaethau cymwys Deddf Cwmnïau 2006. Mae egwyddorion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2023-24 Trysorlys EM hefyd wedi'u dilyn.

3. Sail y Paratoi

3.1 Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn punnoedd sterling. Maent wedi'u paratoi ar sail cost hanesyddol ac eithrio'r eiddo rhydd-ddaliadol sy'n cael ei gario ar sail prisiad.

4. Polisiâu Cyfrifyddu o Bwys

4.1 Datganiadau ariannol ar wahân

4.1.1. Nid yw'n ofynnol i'r cwmni baratoi cyfrifon grŵp gan fod y grŵp sy'n ffurfio'r cwmni a'i is-gwmni yn disgyn o dan drothwy grŵp bach Deddf Cwmnïau 2006. Yn ogystal, nid yw Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifon grŵp gael eu paratoi.

4.2 Busnes Hyfyw

4.2.1. Ar 31 Mawrth 2024, mae gan y cwmni asedau net o £1,252,968 (£1,690,839 31 Mawrth 2023).

4.2.2. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol gan fod y cwmni wedi paratoi cyllideb a rhagolwg llif arian ar gyfer y deuddeg mis ar ôl dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, sy'n dangos bod gan y cwmni ddigon o arian i barhau i fodloni ei rwymedigaethau.

4.2.3. Ar sail hyn, mae'r Cyfarwyddwyr yn ystyried bod y cwmni yn fusnes hyfyw.

4.3 Refeniw

4.3.1. Mae Refeniw yn cynnwys incwm o'r ardoll, grantiau a gwasanaethau yr anfonebir amdanynt.

4.3.2. Incwm o'r ardoll – codir ardoll statudol am yr holl anifeiliaid sy'n cael eu lladd yng Nghymru i'w bwyta gan bobl. Cydnabyddir yr incwm ar ddyddiad y lladd, hyd at wythnos lawn olaf mis Mawrth. Mae incwm ardoll hefyd yn cynnwys ardoll a ddychwelwyd oddi wrth gyrff ardoll Prydain Fawr eraill o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.

4.3.3. Incwm o grantiau – derbynir grantiau gan Lywodraeth Cymru, trwy'r Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig, sef Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020.

4.3.4. Gwasanaethau yr anfonebir amdanynt – cydnabyddir yr incwm pan fo'r gweithgaredd wedi digwydd. Mae'r cyfryw weithgaredd yn ymwneud â gwasanaethau a gyflawnir ar ran cyrff eraill. Nodir incwm yn glir o TAW.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

4.4 Gwariant

4.4.1. Mae'r gwariant yn cynnwys costau ar gyfer gwasanaethau a chostau cyflogaeth. Caiff costau eu cydnabod yn ystod y cyfnod y cynhaliwyd y gweithgaredd. Bydd unrhyw gostau nad ydynt wedi'u talu yn ystod y cyfnod priodol yn cael eu cronni a'u cydnabod yn y symiau taladwy drwy Fasnach a Thaliadau Eraill.

4.5 Buddiannau Gweithwyr Tymor Byr

4.5.1. Caiff cyflogau a thaliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth eu cydnabod yn y cyfnod y derbynnir y gwasanaeth gan weithwyr.

4.6 Pensiynau

4.6.1. Mae'r cwmni'n gwneud cyfraniadau diffiniedig at gynlluniau pensiwn unigol ar gyfer ei holl weithwyr. Caiff cyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn eu rhoi ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Cafodd y cynlluniau pensiwn eu rhoi at ei gilydd o dan Gynllun Pensiwn Grŵp Hybu Cig Cymru. Mae'r cwmni'n dechrau cyfrannu cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl i'r gweithwyr ddechrau yn y swydd.

4.7 Eiddo, offer a chyfarpar

4.7.1. Nodir yr eiddo rhydd-ddaliadol adeg ei brisio llai'r dibrisiad cronedig. Ni ddarperir dibrisiad yn y flwyddyn gaffael. Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio. Caiff yr eiddo rhydddaliadol ei brisio bob tair blynedd, oni fod symudiad y farchnad leol, ym marn y Cyfarwyddwyr, yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei brisio'n amlach.

4.7.2. Nodir offer a chyfarpar am eu cost llai'r dibrisiad cronedig.

4.7.3. Dibrisir asedau eiddo rhydd-ddaliadol, offer a chyfarpar i'w gwerth gweddilliol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol ar y seiliau canlynol:

	Cyfradd	Dull
Eiddo rhydd-ddaliadol	Dros 30 mlynedd (O 2009)	Llinell syth
Cyfarpar cyfrifiadurol	33%	Balans gostyngol
Dodrefn Swyddfa	25%	Balans gostyngol
Cerbydau	25%	Balans gostyngol

(Tabl 21: Seiliau Dibrisiant)

4.8 Asedau Hawl eu Defnyddio

4.8.1. Caiff asedau hawl i ddefnyddio eu cydnabod pan fydd y cwmni'n ymrwymo i gontractau lle mae gan y cwmni hawl i gael y budd economaidd o ddefnyddio a rheoli ased dynodedig.

4.8.2. Mae'r gwerth a gyfalafwyd yn seiliedig ar gost i ddechrau, sef swm rhwymedigaeth gychwynnol y brydles ynghyd ag unrhyw daliadau a wneir ymlaen llaw i'r prydleswr llai unrhyw gymhellion a dderbyniwyd ynghyd ag unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol.

4.8.3. Caiff yr asedau eu dibrisio dros oes y prydlesi ar sail llinell syth. Bydd Cerbydau Modur yn cael eu dibrisio ar 25% y flwyddyn, ac ar hyn o bryd mae oes y brydles ar gyfer asedau eiddo rhwng 5 ac 11 mlynedd.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

- 4.8.4. Bydd y model costau'n parhau i fod yn berthnasol a chaiff gwerthoedd asedau eu diweddarau wrth i rwymedigaethau prydlesau newid.
- 4.8.5. Nid yw unrhyw brydlesi tymor byr, na'r rheini sydd â chyfnod les ar y dyddiad cychwyn o 12 mis neu lai, yn cael eu cyfalafu ac maent yn cael eu trin fel gwariant dros gyfnod y brydles.
- 4.8.6. Hefyd, nid yw lesioedd gwerth isel fel cyfrifiaduron a dodrefn swyddfa'n cael eu cyfalafu a'u trin fel gwariant dros gyfnod y brydles, ar yr amod nad yw'r rhain yn rhyngberthynol iawn i asedau eraill.
- 4.8.7. Cyfrifir taliadau am asedau nad ydynt yn bodloni diffiniad les fel nwyddau a gwasanaethau, a chânt eu priodoli i wariant wrth iddynt ddod yn ddyledus dros unrhyw gyfnod contract.

4.9 Amhariad asedau anghyfredol

- 4.9.1. Ar ddyddiad pob mantolen, bydd y Cwmni'n adolygu symiau cario ei eiddo, ei offer a'i gyfarpar a'i asedau hawl eu defnyddio er mwyn pennu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi dioddef colled amhariad o safbwynt y cynllun gweithredol a'r cynllun busnes. Os oes arwydd o'r fath, caiff swm adferadwy'r ased ei amcangyfrif er mwyn canfod maint y golled oherwydd amhariad (os o gwbl).
- 4.9.2. Y swm adferadwy yw gwerth teg uchaf yr ased ar ôl tynnu'r costau i'w werthu a'r gwerth o'i ddefnyddio. Er mwyn asesu ei werth o'i ddefnyddio, caiff llif arian a ragwelir yn y dyfodol ei ostwng i'w werth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt cyn treth sy'n adlewyrchu asesiadau'r farchnad gyfredol o werth yr arian o ran amser a'r risgiau sy'n benodol i'r ased nad yw'r llif arian a amcangyfrifir i'r dyfodol wedi ei addasu ar gyfer yr ased hwnnw.
- 4.9.3. Cydnabyddir colled amhariad yn syth yn y datganiad o incwm cynhwysfawr, oni bai fod yr ased priodol yn cael ei gario ar werth wedi'i ailbriso; os felly, bydd y golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbriso. Pan fo colled amhariad yn gwrthdroi yn ddiweddarach, bydd swm cario'r ased yn cael ei gynyddu i'r amcangyfrif diwygiedig o'i swm adferadwy, ond fel nad yw'r swm cario cynyddol yn fwy na'r swm cario a fyddai wedi'i bennu pe na byddai colled amhariad wedi'i chydabod ar gyfer yr ased mewn blynyddoedd blaenorol. Caiff achos o wyrddroi colled amhariad ei gydnabod ar unwaith yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, oni bai fod yr ased priodol yn cael ei gario ar werth wedi'i ailbriso; os felly, bydd y gwyrddroad yn cael ei drin fel cynnydd ailbriso.

4.10 Offerynnau Ariannol

- 4.10.1. Bydd asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod pan fydd y Cwmni wedi dod yn rhan o ddarpariaethau contract yr offeryn.

4.11 Asedau ariannol

- 4.11.1. Derbyniadau drwy fasnach, incwm ardoll sy'n ddyledus ac incwm cronedig. Caiff derbyniadau drwy fasnach, incwm ardoll sy'n ddyledus ac incwm cronedig eu cydnabod i ddechrau yn ôl gwerth teg. Darperir ar gyfer amhariad pan geir tystiolaeth wrthrychol (*gan gynnwys cwsmeriaid ag anawsterau ariannol neu sy'n hwyr yn talu*) na fydd symiau'n cael eu hadfer yn unol â thelerau gwreiddiol y cytundeb. Sefydlir darpariaeth ar gyfer amhariad pan fo gwerth cario'r eitem dderbyniadwy'n fwy na gwerth presennol llif arian y dyfodol.

4.12 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

- 4.12.1. Mae arian a gwerthoedd cyfwerth ag arian yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuron mewn sefydliadau ariannol sydd ar gael yn syth ar gais neu â rhybudd heb fod yn fwy na thri mis.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

4.13 Rhwymedigaethau ariannol

4.13.1. Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dosbarthu yn ôl sylwedd y trefniadau cytundebol ar ymrwymwyd iddynt.

4.14 Symiau taladwy drwy fasnach

4.14.1. Cydnabyddir symiau taladwy drwy fasnach yn ôl eu cost i ddechrau.

4.15 Rhwymedigaethau Prydlesau Hawl eu Defnyddio

4.15.1. Caiff rhwymedigaethau prydlesau eu cydnabod pan fydd y cwmni'n ymrwmo i gontractau lle mae gan y cwmni hawl i gael y budd economaidd o ddefnyddio a rheoli ased dynodedig.

4.15.2. I ddechrau, mae gwerth yr atebolrwydd yn cael ei gyfrifo fel gwerth presennol taliadau les, sy'n cael eu disgowntio gan gyfradd llog sylfaenol y Cwmni ar ddyddiad cychwyn y les neu'r dyddiad trosglwyddo o dan IFRS16.

4.15.3. Cyfradd llog sylfaenol y Cwmni ar 1 Ebrill 2019 oedd 2.45%, a dim ond pan fydd cyfnod y brydles yn cael ei ddiweddarau y bydd cyfraddau llog yn cael eu diweddarau.

4.15.4. Mae taliadau prydles yn cynnwys y taliadau sefydlog i'w gwneud o dan gontract y brydles, a dim ond pan fyddant yn ddyledus y rhoddir cyfrif am godiadau chwyddiant.

4.15.5. Mae'r rhwymedigaeth prydlesau'n cynyddu gyda thâl llog (*sy'n cael ei godi ar wariant*) ac mae'n cael ei leihau wrth i daliadau gael eu gwneud i gyflenwyr.

4.16 Arian Tramor

4.16.1. Bydd gweithgareddau masnachu arferol ag arian tramor, sef taliadau i gyflenwyr tramor, yn cael eu cofnodi fel sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid ar ddyddiad y trafodiad.

4.17 Rhwymedigaethau Digwyddiadol

4.17.1. Mae'r cwmni'n cydnabod rhwymedigaethau yn y Fantolen, lle mae'r meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

4.17.1.1 pan fydd gan y cwmni rhwymedigaeth yn y dyfodol i dalu dyled;

4.17.1.2 efallai y bydd y ddyled honno'n gofyn am all-lif o adnoddau pan fydd yr atebolrwydd yn crisialu;

4.17.1.3 y ceir amcangyfrif dibynadwy o'r atebolrwydd.

4.17.2. Os nad yw'r holl feini prawf hyn yn cael eu bodloni, bydd y rhwymedigaeth yn cael ei chofnodi yn y nodiadau fel rhwymedigaeth amodol.

4.18 Amcangyfrifon a Dyfarniadau Cyfrifyddu

4.18.1. Wrth ddefnyddio polisiâu cyfrifyddu'r Cwmni, a ddisgrifir yn gynharach yn y nodyn hwn, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr farnu a gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â symiau cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn gwbl amlwg o ffynonellau eraill.

4.18.2. Mae'r amcangyfrifon a'r thybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Adolygir amcangyfrifon a rhagdybiaethau sylfaenol yn barhaus.

4.18.3. Cydnabyddir cywiriadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod pan fo'r amcangyfrif yn cael ei gywiro os yw'r cywiro'n cael effaith ar y cyfnod hwnnw'n unig neu yng nghyfnod y cywiro a chyfnodau diweddarach os yw'r cywiro'n effeithio ar y cyfnod cyfredol a chyfnodau diweddarach.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

4.18.4. Y canlynol yw'r penderfyniadau pwysig, ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud ag amcangyfrifon (gweler isod), y mae'r Cyfarwyddwyr wedi'u gwneud wrth roi polisïau cyfrifyddu'r Cwmni ar waith ac y mae'n rhaid iddynt gael yr effaith fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.

4.18.1.1 **Cydnabod refeniw:** Wrth ddod i farn, ystyriodd y cyfarwyddwyr y meini prawf manwl ar gyfer cydnabod y refeniw a nodir yn IFRS 15 Refeniw.

4.18.1.2 **Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus:** Mae cydnabod amhariad ar ased ariannol yn seiliedig ar ba mor debygol ydynt o adennill gwerth yr asedau ariannol. Felly, wrth gydnabod amhariad mae gofyn gallu cyfiawnhau'r gallu i adennill.

4.18.1.3 **Amhariad ar eiddo, offer a chyfarpar:** Wrth benderfynu a oes amhariad ar eiddo, offer a chyfarpar, mae angen amcangyfrif gwerthar-ddefnydd yr unedau sy'n cynhyrchu arian. Mae'r cyfrifiad gwerth-ar-ddefnydd yn gofyn i'r endid amcangyfrif y llifau arian y mae disgwyl iddynt ddeillio o'r uned cynhyrchu arian yn y dyfodol ynghyd â chyfradd ddisgownt addas er mwyn cyfrifo'r gwerth cyfredol.

4.18.1.4 **Hawl i Ddefnyddio Asedau a Rhwymedigaethau:** Penderfynu ar y gyfradd ddisgownt sylfaenol ar adeg y cyfalafu.

4.18.1.5 **Rhwymedigaethau pensiwn:** Mae'r Cyfarwyddwyr wedi cael ac wedi ystyried prisiad actiwaraidd ynglŷn â rhwymedigaeth bosibl o safbwynt un o gynlluniau pensiwn y Cwmni, fel y gwelir yn nodyn 22.

4.18.2 Ffynonellau allweddol o ansicrwydd o ran amcangyfrif

4.18.2.1 Mae'r Cyfarwyddwyr yn credu nad oes dim ffynonellau allweddol o ansicrwydd o ran amcangyfrif yn y cyfrifon ar gyfer y cyfnod.

4.19 Effaith safonau nad ydynt ar waith eto

4.19.1. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried effaith y safonau a'r dehongliadau a gyhoeddwyd ond nad ydynt ar waith eto ac na chawsant eu mabwysiadu'n gynnar gan y cwmni. Ni fydd mabwysiadu'r safonau hyn yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.

5. Refeniw

	2024 £	2023 £
Ardoll	4,471,478	4,585,229
Grantiau a dderbyniwyd:		
Llywodraeth Cymru - RMDP	975,732	2,724,489
Llywodraeth Cymru – Allforio	-	83,630
Cronfa Her Arfor	839	-
Gwasanaethau	16,600	18,071
	5,464,649	7,411,419

(Tabl 22: Crynodeb Refeniw)

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

- 5.1 O 1 Ebrill 2021, mae cyfanswm incwm ardoll Prydain Fawr wedi'i ddychwelyd i'r wlad enedigol. Yn gynwysedig yn yr ardoll mae swm o £1,340,847 (2023 £1,504,479) a dderbyniwyd o dan y trefniant hwn.
- 5.2 Yn flaenorol, roedd cyrff ardoll Prydain Fawr wedi cytuno ar wariant ar y cyd, o dan gronfa wedi'i neilltuo, ar weithgareddau Prydain Fawr sydd o fudd i dalwyr ardoll Prydain Fawr. Roedd HCC yn gallu anfonebu'r gronfa £dim (2023 £79,270).

6. Segmentau Gweithredol

- 6.1 Mae'r Bwrdd o'r farn bod y cwmni'n cynnys dau segment gweithredol, gyda'r ddau yn cyfrannu at ddatblygu a hybu cig coch Cymru.
- 6.2 Pennwyd y segmentau yn ol y ffynhonnell incwm a'r gwariant perthnasol.
- 6.3 Mae'r holl incwm a gynhyrchir gan y business yn dod o'r Deyrnas Unedig.

	Ardoll £	Grantiau £	Cyfanswm £
2024			
Refeniw	4,488,079	976,570	5,464,649
Gwariant	4,984,847	985,076	5,969,923
(Gwarged) Gweithredol / Dros ben	(496,768)	(8,506)	(505,274)
2023			
Refeniw	4,603,300	2,808,119	7,411,419
Gwariant	4,727,050	2,803,236	7,530,286
(Gwarged) Gweithredol / Dros ben	(123,750)	4,883	(118,867)

(Tabl 23: Segmentau Gweithredol)

- 6.4 Mae'r sector ardoll hefyd yn cynnwys gwasanaethau eraill sy'n ychwanegu at wariant yr ardoll.
- 6.5 Mae'r wybodaeth ganlynol yn nodi'r risgiau i incwm HCC oherwydd dibyniaeth ar bartion penodol, yn seiliedig ar eu prif ffynonellau incwm.
- 6.6 Fel rhan o'r incwm o'r ardoll, 3 chwmni sy'n rhedeg lladd-dai yng Nghymru sydd i gyfrif am 18%, 12% a 12% yn y drefn honno (2023 13%, 10% a 9%) o gyfanswm yr incwm o £5,464,649 (2023 £7,411,319).
- 6.7 Fel rhan o'r grantiau, y grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a hefyd dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-20 sydd i gyfrif am 37.1% (2023 37.9%) o gyfanswm yr incwm o £5,464,649 (2023 £7,411,319).

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

7. Gwariant Uwchlaw Incwm ar Weithgareddau Cyffredin Cyn Treth

7.1 Nodir y canlyniad ar ôl codi/(credydu) y canlynol:

	2024 £	2023 Ailddatgan £
Ffioedd Archwiliad	46,759	34,688
Costau Staff	558,643	578,828
Ffioedd y Cyfarwyddwyr	89,767	59,263
Dibrisiad	43,102	57,866
Dibrisiant – Asedau Hawl Defnydd	41,031	47,947
Colled / (Elw) ar Gyfnewid Arian Tramor	1,609	4,916
Rhent Prydlesau Gweithredol – Cyfarpar	3,906	3,957
Drwgddelydion (Adferwyd)	-	(16,667)
Cynladwyedd – Gorfodi Brand	179,575	129,123
Cynladwyedd – Gwybodaeth am y Farchnad	244,158	365,161
Cynladwyedd – Ymchwil a Datblygu	216,659	130,485
Marchnata Strategol – Marchnata Brand Defnyddwyr	754,574	863,610
Marchnata Strategol – Marchnata Brand Masnach	248,901	252,743
Marchnata Strategol – Hyrwyddiadau Manwerthu	92,349	54,135
Marchnata Strategol – Rhaglen Iechyd ac Addysg	99,392	46,930
Marchnata Strategol – Mynediad i'r Farchnad	91,500	22,000
Marchnata Strategol – Cyfathrebu Corfforaethol	266,347	321,061
Y Gadwyn Gyflenwi – Datblygiadau Masnach Ryngwladol	664,468	755,878
Y Gadwyn Gyflenwi – Grant Allforio LIC	-	83,630
Y Gadwyn Gyflenwi – Datblygu Masnach Manwerthu	187,438	103,194
Y Gadwyn Gyflenwi – Trosglwyddo Gwybodaeth	125,990	94,530
Grantiau Llywodraeth Cymru	985,076	2,719,606
Grantiau Eraill	839	-
Costau Corfforaethol	1,027,840	817,401
	5,969,923	7,530,286

(Tabl 24: Gwariant)

7.2 Mae'r dadansoddiad cymharol wedi'i ailddatgan i gyfrifo'n gywir y cyfanswm gwariant a ddatgelwyd tra hefyd yn nodi dadansoddiad diwygiedig o feysydd gweithgaredd newydd y sefydliad.

7.3 Caiff costau staff eu priodoli i'r gweithgaredd y maent yn berthnasol iddo.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

8. Costau Cyllid

	2024 £	2023 £
Ffioedd llogau ar orddrafft banc	-	12,714
Ffioedd llogau ar Asedau Hawl eu Defnyddio	18,598	19,780
	18,598	32,494

(Tabl 25: Costau Cyllid)

9. Costau Staff

9.1 Roedd costau staff yn cynnwys:

	2024 £	2023 Ailddatgan £
Cyflogau	1,413,231	1,340,155
Costau Nawdd Cymdeithasol	147,874	145,657
Costau Pensiwn Eraill	154,869	77,420
	1,715,974	1,563,232

(Tabl 26: Costau Staff)

9.2 Mae'r ffigyrau cymharol ar gyfer costau nawdd cymdeithasol wedi'u hailddatgan (cynnydd o £4,775) i ddatgelu costau gwirioneddol yn ystod y flwyddyn yn gywir.

9.3 Dyma nifer gyfartalog y bobl gyfwerth ag asmer llawn, ac eithrio Cyfarwyddwyr, a gyflogwyd ar contractau cyflogaeth y DU, yn ystod y flwyddyn:

	2024	2023
Datblygiad Marchnad	8	7
Datblygu Diwydiant	10	10
Cyfathrebu	3	3
Gwasanaethau Corfforaethol	12	13
	33	33

(Tabl 27: Niferoedd Staff)

10. Enillion y Cyfarwyddwyr

10.1 Dyma enillion y cyfarwyddwyr:

	2024 £	2023 £
Ffioedd	83,163	53,875
Treuliau	6,604	5,388
	89,767	59,263

(Tabl 28: Enillion y Cyfarwyddwyr)

10.2 Ni wnaed dim taliadau i'r Cyfarwyddwyr fel rhan o gynlluniau pensiwn personol.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

11. Treth

11.1 Treth ar incwm cyllid. Nodir y dreth a godwyd isod:

	2024	2023
Treth a godwyd ar gyfer y cyfnod	2,176	299
	2,176	299

(Tabl 29: Tâl Trethiant)

11.2 Cysoni cyfanswm y dreth a godwyd:

11.2.1 Nid yw'r cwmni'n ymgymryd ag unrhyw weithgareddau masnachu. Yr unig incwm y telir y dreth gorfforaethol arno yw incwm cyllid.

	2024	2023
Incwm Cyllid	11,509	1,573
	11,509	1,573

(Tabl 30: Incwm Cyllid)

11.2.2 Cyfrifir tâl treth ar gyfradd treth gorfforaeth y DU o 19% (2023 19%)

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

12. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

	Tir Rhydd-ddaliadol ac Eiddo £	Cyfarpar Swyddfa £	Cerbydau Modur £	Cyfanswm £
Cost neu Brisiad				
1 Ebrill 2022	600,000	164,048	4,490	768,538
Ychwanegiadau	-	11,337	-	11,337
Gwarediadau	-	(9,393)	-	(9,393)
31 Mawrth 2023	600,000	165,992	4,490	770,482
Ychwanegiadau	-	2,712	-	2,712
Gwarediadau	-	(11,057)	-	(11,057)
31 Mawrth 2024	600,000	157,647	4,490	762,137
Dibrisiant				
1 Ebrill 2022	25,556	81,529	3,080	110,165
Swm a godir am y flwyddyn	25,556	19,650	315	45,521
Gwarediadau	-	(7,194)	-	(7,194)
At 31 March 2023	51,112	93,985	3,395	148,492
Swm a godir am y flwyddyn	25,556	16,731	245	42,532
Rhyddhawyd ar Ailbrisio	(76,668)	-	-	(76,668)
Gwarediadau	-	(10,486)	-	(10,486)
31 Mawrth 2024	-	100,230	3,640	103,870
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2024	600,000	57,417	850	658,267
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2023	548,888	72,007	1,095	621,990

(Tabl 31: Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar)

- 12.1 Cynhaliwyd prisiad marchnad annibynnol o'r adeilad ar 31 Mawrth 2024 ar werth o £600,000. Roedd hyn ar sail rhydd-ddaliad meddiant gwag gan Syrfewyr Siartredig RJ, gan dybio cyfnod marchnata o ddwy flynedd. Pe bai'r adeilad wedi'i gario o dan y model cost, y swm cario a gydnabuwyd ar 31 Mawrth 2024 fyddai £533,872. (2023 £560,752).
- 12.2 Mae adolygiad amhariad o'r eiddo, peiriannau a chyfarpar wedi'i gynnal ac ni ddatgelodd unrhyw angen i archebu tâl amhariad na newid y cyfraddau dibrisiant a ddefnyddir ar hyn o bryd.
- 12.3 **Asedau Anniriaethol** - Yn unol â'r polisi cyfrifyddu, caiff asedau anniriaethol eu dileu yn llawn yn ystod y flwyddyn. Ni wnaethpwyd unrhyw ychwanegiadau yn y flwyddyn (2023 £10,145).

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

13. Asedau Hawl eu Defnyddio

	Tir Rhydd- ddaliadol ac Eiddo £	Cerbydau Modur £	Cyfanswm £
Cost neu Brisiad			
Ar 1 Ebrill 2022	317,745	32,649	350,394
Addasiad prisio	(7,792)	(352)	(8,144)
Ar 31 Mawrth 2023	309,953	32,297	342,250
Gwarediadau	-	(21,987)	(21,987)
Addasiad prisio	18,292	-	18,292
Ar 31 Mawrth 2024	328,245	10,310	338,555
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2022	103,917	25,248	129,165
Swm a godir am y flwyddyn	40,898	7,049	47,947
At 31 March 2023	144,815	32,297	177,112
Swm a godir am y flwyddyn	41,031	-	41,031
Rhyddhawyd ar Warediadau	-	(21,987)	(21,987)
Ar 31 Mawrth 2024	185,846	10,310	196,156
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2024	142,399	-	142,399
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2023	165,138	-	165,138

(Tabl 32: Asedau Hawl eu Defnyddio)

13.1 Mae HCC yn prydlesu eiddo a cherbydau. Caiff yr asedau hyn eu prydlesu i gyd-fynd â natur hanfodol ei incwm.

14. Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach a Symiau Derbyniadwy Eraill

	2024 £	2023 £
Derbyniadau	31,092	1,092
Incwm ardoll sy'n ddyledus	259,824	297,197
Dyledwyr eraill	-	63,253
Rhagdaliadau ac incwm cronodig	431,980	1,627,439
Swm sy'n ddyledus o gwmni'r grwp (Nodyn 24)	17,432	33,022
Cyfanswm	740,328	2,022,003

(Tabl 33: Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach a Symiau Derbyniadwy Eraill)

14.1 Mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn bod y gwerth ar y llyfrau yn frasamcan o'r gwir werth.

14.2 Cyfartaledd y cyfnod credyd yw 31 diwrnod (2023 45 diwrnod).

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

- 14.3 Caniatwyd ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig o incwm ardoll dyledus gwerth £dim (2023 £dim). Cyrhaeddwyd y swm hwn ar ôl adolygu hanes talu dyledwyr unigol ar ddyddiad y fantolen, ac mae'n cynrychioli darpariaethau yn erbyn y symiau cario perthnasol. Mae dadansoddiad o'r symudiad ar y lwfans i'w weld isod:

	2024 £	2023 £
Ar 1 Ebrill	-	16,667
Dyled a ddilëwyd	-	-
Adferwyd	-	(16,667)
Lwfans ychwanegol	-	-
Ar 31 Mawrth	-	-

(Tabl 34: Darpariaeth Dyledion Drwg)

- 14.4 Mae'r Cyfarwyddwyr yn fodlon bod ansawdd credyd y dyledwyr sy'n weddill yn gwbl adferadwy.
- 14.5 Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi dadansoddiad o'r symiau derbyniadwy a oedd yn ddyledus yn y gorffennol ar 31 Mawrth 2024, ond nad oedd amhariad arnynt. Cred y Cwmni y gellir adennill y balansau yn y pen draw ar sail adolygiad o hanes taliadau blaenorol.

	2024 £	2023 £
Hyd at 3 mis oed		
Derbyniadau	5,606	-
Incwm o ardoll	42,527	24,675
Dros 3 mis oed	-	10,000
Total	48,133	34,675

(Tabl 35: Dadansoddi Dyled Oed)

- 14.6 Derbyniwyd £48,133 ar ôl diwedd y flwyddyn.
- 14.7 Wedi'i gynnwys fel rhan o'r rhagdaliadau a'r incwm cronodig mae £dim (2023 £1,168,399) sy'n ymwneud â gwariant grant. Mae derbyniadau drwy fasnach a derbyniadau eraill yn cynnwys asedau ariannol gwerth £290,916 (2023 £298,288) sy'n cael eu categoreiddio fel benthyciadau a derbyniadau.
- 14.8 Rheoli Risg Ariannol:
- 14.8.1 Risg Credyd - Mae risg credyd y cwmni'n deillio'n bennaf o'i falansau o'r incwm ardoll sy'n ddyledus. Gan fod yr ardoll yn dâl statudol sy'n seiliedig ar yr holl anifeiliaid sy'n cael eu lladd ar gyfer y gadwyn fwyd, nid yw HCC yn gallu asesu teilyngdod credyd proseswyr cyn iddynt ddechrau masnachu. Er mwyn lleihau'r risg, mae HCC yn dilyn y gweithdrefnau manwl ar gyfer rheoli credyd.
- 14.8.2 Risg Hylifedd - Mae'r cwmni'n cadw llygad barcud drwy'r amser ar ei falansau arian o'i gymharu â'i ymrwymadau dyledus i sicrhau fod ganddo ddigon o arian i dalu rhwymedigaethau'r cwmni pan ddaw'n amser eu talu.
- 14.8.3 Risg Cyfalaf - Nid yw'r cwmni'n gallu pennu incwm; yn hytrach, pennir cyllidebau gan y Bwrdd bob blwyddyn ar gyfer gwariant arfaethedig, ac yna caiff y cyllidebau hyn eu monitro. Trosglwyddir unrhyw warged i'r cronfeydd wrth gefn.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

15. Taliadau drwy Fasnach a Thaliadau Eraill

	2024 £	2023 Ailddatgan £
Symiau Dyledus o fewn Blwyddyn		
Taliadau drwy Fasnach	249,922	605,325
Symiau Taladwy Eraill	44,925	36,384
Croniadau ac Incwm Gohiriedig	331,367	519,590
Trethi Arall a Nawdd Cymdeithasol	82,462	42,329
Cyfanswm	708,676	1,203,628

(Tabl 36: Taliadau drwy Fasnach a Thaliadau Eraill)

15.1 Mae symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill yn cynnwys rhwymedigaethau ariannol o £626,214 (2023 £851,921) sy'n cael ei gategoreiddio fel rhwymedigaethau ariannol eraill yn ôl cost wedi'i hamorteiddio.

15.2 Mae ffigurau cymharol wedi'u hailddatgan i ddatgelu symiau masnach a symiau taladwy eraill ar wahân.

16. Rhwymedigaethau Prydlesau Hawl eu Defnyddio

	2024 £	2023 £
Ar 1 Ebrill	206,087	243,433
Addasiad Prisio	18,292	(8,144)
Ailddatgan	4,351	3,712
Ad-daliadau	(47,572)	(48,982)
Costau Cyllid	14,247	16,068
Cyfanswm	195,405	206,087

(Tabl 37: Rhwymedigaethau Prydlesau Hawl eu Defnyddio)

16.1 Mae'r ailddatganiad yn codi oherwydd eglurhad o hyd y brydles ar gyfer un o'r eiddo. Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith sylweddol ar werth yr ased.

16.2 Mae'r rhwymedigaethau prydles yn ddyledus fel a ganlyn:

	2024 £	2023 £
Ymhen blwyddyn neu lai	28,756	29,489
Rhwng dwy a phum mlynedd	115,607	100,597
Mewn pum mlynedd neu fwy	51,042	76,001
Cyfanswm	195,405	206,087

(Tabl 38: Rhwymedigaethau Prydlesau Hawl eu Defnyddio)

17. Cyfalaf Cyfranddaliadau

17.1 Mae'r cwmni'n gwmni cyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Cyfyngir atebolrwydd yr aelod i £100.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

18. Arian wrth Gefn

	Cyfrif Incwm a Gwariant £	Cronfa Bensiwn £	Cyfanswm £
Ar 1 Ebrill 2022	1,129,926	711,000	1,840,926
(Diffyg) o'r cyfrif incwm a gwariant	(150,087)	-	(150,087)
Trosglwyddo (i)/o'r Cyfrif Incwm a Gwariant	321,000	(321,000)	-
Ar 31 Mawrth 2023	1,300,839	390,000	1,690,839
(Diffyg) o'r cyfrif incwm a gwariant	(437,871)	-	(437,871)
Trosglwyddo (i)/o'r Cyfrif Incwm a Gwariant	200,000	(200,000)	-
Ar 31 Mawrth 2024	1,062,968	190,000	1,252,968

(Tabl 39: Datganiad o Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn)

18.1 Delir arian wrth gefn i dalu am weithgareddau'r cwmni i'r dyfodol, gan gynnwys amgylchiadau annisgwyl.

19. Trefniadau Prydlesau Gweithredol

19.1 Ymrwymadau prydlesau gweithredol na ellir eu canslo:

19.2 Ar ddyddiad y fantolen, roedd gan y Cwmni ymrwymadau'n ddyledus ar gyfer taliadau prydles lleiaf i'r dyfodol, dan brydlesau gweithredol na ellir eu canslo. Mae'r rhain yn ddyledus fel a ganlyn:

	2024 £	2023 £
O fewn blwyddyn	3,447	4,512
Rhwng dwy a phum mlynedd	4,213	10,228
Cyfanswm	7,660	14,740

(Tabl 40: Trefniadau Prydlesau Gweithredol)

19.3 Y prif eitemau sy'n cael eu prydlesu yw cyfarpar swyddfa.

19.4 Ymdrinnir â'r prydlesau hyn fel prydlesau gweithredol ac ni chânt eu cydnabod ym mantolen y cwmni gan eu bod yn isel eu gwerth, fel y diffinnir yn y polisi cyfrifo. Mae taliadau dan brydlesau gweithredol yn cael eu rhoi ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr fel llinell syth dros gyfnod y brydles.

20. Ymrwymadau Cyfalaf

20.1 Ar 31 Mawrth 2024 roedd y gwariant cyfalaf a gymeradwywyd ac a ymrwymwyd yn £ddim (2023 £dim).

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

21. Digwyddiadau Ôl-fantolen

- 21.1 Bydd sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2024-25 yn cael ei heffeithio gan statws TAW HCC yn newid o 1 Ebrill 2024, gyda CThEM yn ystyried bod incwm ardoll y tu allan i gwmpas TAW. Mae'r newid yn effeithio'n ariannol ar HCC, gan na all adennill cyfran sylweddol o'r TAW a dynnir ar ei gostau mwyach, a chyllideb gwariant sy'n lleihau mewn termau real (£400k).
- 21.2 Yn dilyn diwedd y flwyddyn, ymddiswyddodd y Prif Swyddog Gweithredol yn dilyn cyfnod o absenoldeb. Ar ôl yr ymddiswyddiad, cynhaliwyd gwrandawriad disgyblu, daeth y Bwrdd i'r casgliad pe na bai'r unigolyn wedi ymddiswyddo y byddai wedi cael ei ddiswyddo. Mae'r cwmni wedi asesu'r digwyddiad hwn ac nid yw'n disgwyl unrhyw effaith sylweddol ar ei sefyllfa ariannol na'i weithrediadau. Mae trefniadau trosiannol priodol wedi'u rhoi ar waith, ac mae proses recriwtio ar y gweill i benodi Prif Swyddog Gweithredol newydd.

22. Rhwymedigaethau Digwyddiadol

- 22.1 Mae'r cwmni'n ymwybodol o rwymedigaeth ddigwyddiadol sy'n £190,000 (2023 £390,000). Mae'r rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi o ddarpariaethau a75 o Ddeddf Pensiynau 1995, ac mae'n seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar 31 Mawrth 2024. Nid oes unrhyw brisiadau dilynol wedi'u paratoi gan y cwmni pensiwn.
- 22.2 Mae HCC yn gyflogwr sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Comisiwn Cig a Da Byw ar gyfer rhai o'i weithwyr a'i gyn-weithwyr. Gall rhwymedigaeth godi i dalu cyfran o unrhyw ddiffyg a75 yn y cynllun os bydd Prif Gyflogwr y Cynllun yn dirwyn y cynllun hwn i ben. Mae amcangyfrif o'r rhwymedigaeth hon wedi'i gyfrifo ar 31 Mawrth 2024 ac mae'n dod i £190,000.
- 22.3 Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 37 yn datgan y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer darpariaethau ac eitemau digwyddiadol. Yn benodol, mae'r safon yn pennu tri o ofnyion i rwymedigaeth gael ei chofnodi fel darpariaeth a'i nodi felly ym mantolen y cwmni. Cydnabyddir bod gan HCC rwymedigaeth i'r dyfodol i fodloni'r ddyled hon, sy'n codi o'r gorffennol pan oedd staff yn cronni buddiannau yn y Cynllun tra'r oeddent yn gyflogedig. Mae'n bosibl y bydd y rhwymedigaeth honno'n gofyn am all-lif o adnoddau pan fydd y rhwymedigaeth yn crisialu. Fodd bynnag, y trydydd gofyn yw ei bod yn rhaid cael amcangyfrif dibynadwy, ac ym marn y Cyfarwyddwyr, nid yw'r gofyn hwn yn cael ei fodloni.
- 22.4 Roedd yr amcangyfrif ym mis Mawrth 2024 yn £190,000. Roedd yr amcangyfrifon ar gyfer y 4 blynedd blaenorol yn amrywio o £390,000 i £711,000. O'r cyngor pellach a gafwyd, byddai'n ymddangos y gallai amrywiadau o'r fath ddigwydd o un flwyddyn i'r llall. Ym marn y Cyfarwyddwyr nid yw hwn yn darparu amcangyfrif dibynadwy.
- 22.5 Ar y sail honno, datgelir y rhwymedigaeth bosibl fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol ac nid fel darpariaeth.

23. Trafodion Partïon Perthnasol

- 23.1 Gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024, Llywodraeth Cymru oedd yr unig aelod o'r cwmni a'r parti â'r rheolaeth eithaf.
- 23.2 Mae'r cwmni'n cael cyllid drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, sy'n cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru, ac roedd £2,144,130 (2023 £2,640,247) yn dderbyniadwy yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd £dim (2023 £1,168,398) yn ddyledus, a oedd yn ymwneud â gwariant grant nad oedd wedi'i ad-dalu eto.
- 23.3 Oherwydd oedi wrth dalu hawliadau yn ystod tymor y prosiect, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cyfleuster i HCC dynnu arian pan fo angen. Mae'r cyfleuster werth £1m hyd at 31 Mawrth 2024. Yn ystod y flwyddyn, tynnwyd i lawr ac ad-dalwyd £850,000 yn ystod y flwyddyn.
- 23.4 Roedd cyfanswm cyllid uniongyrchol o £dim (2023 £83,630) hefyd yn dderbyniadwy gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo allforio. Roedd £dim (2023 £83,630) yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.
- 23.5 Mae trafodion a balansau sy'n ymwneud â'r is-gwmni, EIDCYMRU, yn cael eu rhannu ar wahân yn Nodyn 24.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad)

- 23.6 Oherwydd natur gweithrediadau'r sefydliad a chyfansoddiad y Bwrdd o sefydliadau'r diwydiant a'r sector preifat, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau y gallai fod gan aelod o'r Bwrdd fuddiant ynddynt. Cynhelir yr holl drafodion sy'n ymwneud â sefydliadau y gallai fod gan aelod o'r bwrdd fuddiant ynddynt hyd braich ac yn unol â gweithdrefnau caffael arferol y sefydliad. Mae'r sefydliad yn cadw cofrestr o Fuddiannau sy'n cofnodi unrhyw fuddiant busnes, boed yn ariannol neu fel arall y gellir ei ystyried yn debygol o ymyrryd ag arfer barn annibynnol aelod. Ni chafwyd unrhyw ddileadau mewn perthynas â thrafodion partion cysylltiedig.
- 23.7 Cynhaliwyd y trafodion partion cysylltiedig canlynol yn ystod y flwyddyn:

Aelod Bwrdd	Swydd a Ddelir	Sefydliad	Trafodion Gwerthu		Trafodion Prynu	
			Yn y flwyddyn	Balans yn ddyledus	Yn y flwyddyn	Balans yn ddyledus
RE Roberts	Cyfarwyddwr	Marchnadoedd Ffermwyr Cyf	£635	-	-	-
DP Morgan	Cyfarwyddwr	Grwp Kepak Cyfyngedig	£24,885	-	£1,132,425	£58,526
CM Smith	Cadeirydd	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	£360	-	-	-
GW Davies	Cyfarwyddwr	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	£360			
JT Davies	Cyfarwyddwr	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	£360			
HH Evans	Cyfarwyddwr	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	£360	-	-	-
JT Davies	Cyfarwyddwr	Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru	£18,129	-	-	-

(Tabl 41: Trafodion Partion Perthnasol)

24. Mentrau Ategol

- 24.1 Y cwmni yw unig aelod, fel gwarant, EIDCYMRU, sy'n gwmni cyfyngedig drwy warant sydd â'i brif leoliad busnes ym Mharc Merlin, Aberystwyth. Mae'r cwmni wedi'i gofrestru yng Nghymru. Mae'n gweithredu'n bennaf fel swyddfa ar gyfer cofnodi symudiadau defaid yn electronig yng Nghymru. Caiff EIDCYMRU ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru, a chaiff y cyfryw gyllid ei ddarparu fel taliadau.
- 24.2 Yn ystod y flwyddyn, ailgododd HCC gostau yn ymwneud â gweithgareddau EIDCYMRU i gyfanswm o £73,524 (2023 £82,138). Ar ddiwedd y flwyddyn mae £17,432 (2023 £33,022) yn ddyledus.

25. Cynlluniau Pensiwn

25.1 Cynllun Pensiwn Personol Grŵp Hybu Cig Cymru

- 25.1.1 Cyfrannodd y cwmni at gynlluniau pensiwn personol unigol ar gyfer rhai o'i weithwyr. Caiff cyfraniadau eu rhoi ar y datganiad o incwm cynhwysfawr fel y maent yn digwydd ac roedd y cyfanswm yn £154,869 (2023 £77,420). Roedd cyfraniadau gwerth £21,103 (2023 £9,712) heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

25.2 Cynllun Pensiwn y Comisiwn a Da Byw

- 25.2.1 Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022 gwnaeth y cwmni hefyd gyfraniadau i gynllun pensiwn buddion diffiniedig a weithredir gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth. Daeth y cynllun i ben i Gronni yn y dyfodol o 31 Mawrth 2022 ac mae'r aelodau bellach wedi'u gohirio.
- 25.2.2 Nid oes gwybodaeth am y rhaniad o asedau'r cynllun rhwng y cyflogwyr sy'n cymryd rhan ar gael. Felly ni all y cwmni roi cyfrif am y cynllun fel cynllun buddion diffiniedig a chyfrifir amdano fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig.
- 25.2.3 Ceir rhagor o wybodaeth am rwymedigaeth a all godi pan fydd y cwmni'n rhoi'r gorau i gyflogi unrhyw un o fewn y cynllun hwn yn nodyn 22.

Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl – heb fod yn destun archwiliad

	2024 £	2023 Aiddatgan £
Incwm		
Ardoll – Proseswyr Cymru		
Gwartheg	1,009,288	869,209
Defaid	2,091,233	2,100,244
Moch	30,111	32,027
	3,130,632	3,001,480
Ardoll – Dychwelyd		
Gwartheg	690,256	755,555
Defaid	554,315	658,608
Moch	96,276	90,316
	1,340,847	1,504,479
Ardoll gwartheg / moch a dalwyd l gyrff ardoll Prydain Fawr	(338,284)	(314,877)
	1,002,563	1,189,602
Cronfa wedi'i Chlustodi Cyrff Ardollau'r DU	-	79,270
Incwm o'r Ardoll	4,133,195	4,270,352
Incwm Arall		
Gwasanaethau	16,600	18,071
Grant Allforio LIC	-	83,630
Grantiau RMDP Llywodraeth Cymru	975,731	2,724,489
Cronfa Her Arfor	839	-
Llog a Dderbyniwyd	11,509	1,573
Cyfanswm Incwm	5,137,874	7,098,115
Gwariant Uniongyrchol		
Cynladwyedd – Gorfodi Brand	179,575	129,123
Cynladwyedd – Gwybodaeth am y Farchnad	244,158	365,161
Cynladwyedd – Ymchwil a Datblygu	216,659	130,485
Marchnata Strategol – Marchnata Brand Defnyddwyr	754,574	863,610
Marchnata Strategol – Marchnata Brand Masnach	248,901	252,743
Marchnata Strategol – Hyrwyddiau Manwerthu	92,349	54,135
Marchnata Strategol – Rhaglen Iechyd ac Addysg	99,392	46,930
Marchnata Strategol – Mynediad i'r Farchnad	91,500	22,000
Marchnata Strategol – Cyfathrebu Corfforaethol	266,347	321,061
Cadwyn Gyflenwi – Datblygiadau Masnach Ryngwladol	664,468	755,878
Cadwyn Gyflenwi – Grant Allforio LIC	-	83,630
Cadwyn Gyflenwi – Datblygu Masnach Manwerthu y DU	187,438	103,194
Cadwyn Gyflenwi – Trosglwyddo Gwybodaeth	125,990	94,530
Grantiau BQ Llywodraeth Cymru	-	2,660

Grantiau RMDP Llywodraeth Cymru	985,076	2,716,947
Cronfa Her Arfor	839	-
	4,157,267	5,942,088
Costau Corfforaethol		
Costau Archwilio Mewnol ac Allanol	46,759	34,688
Drwgddyledion (adferwyd)/dilëwyd	-	(16,667)
Costau Banc	1,876	21,704
Costau Casglu	43,165	43,440
Dibrisiant	41,989	56,218
Dibrisiant: Asedau Hawl eu Defnyddio	41,031	47,947
Ffioedd a Chostau'r Cyfarwyddwyr	93,836	65,596
Llogi Offer	5,364	5,475
Costau Cyllid: Prydlesau Haw Ieu Defnyddio	18,598	19,780
Yswiriant	33,220	31,403
Cymorth TG	68,363	70,287
Golau a Gwres	32,025	21,007
Argraffu, Postio a Defnyddiau Swyddfa	4,703	3,933
Gwasanaethau Proffesiynol	350,103	159,607
Atgyweirio a chynnal a chadw	27,223	22,613
Rhent ac ardrethi	24,379	24,210
Costau Staff	627,338	699,300
Mân Dreuliau	29,064	25,263
Ffôn	16,456	16,381
Gorbenion a adferwyd	(12,507)	(46,820)
Cyfanswm Costau Corfforaethol	1,492,970	1,305,815
Cyfanswm Gwariant	5,959,615	7,247,903
Gwariant Uwchlaw Incwm	(512,363)	(149,788)
Incwm	5,137,874	7,098,115
Gwariant	5,650,237	7,247,903
Gwariant Uwchlaw Incwm	(512,363)	(149,788)

(Tabl 42: Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl)

Mae'r dadansoddiad cymharol wedi'i ailddatgan i ddatgelu cyfanswm y gwariant yn unol â meysydd gweithgaredd newydd y sefydliad.

Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r cyfrifon statudol.

